# Disgrifiad o'r Swydd

| | |
|---|---|
| Côd Gwerthuso'r Swydd | |

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Cydymaith Ymchwil |
| Ysgol/Adran/Coleg | |
| Gradd y Swydd | 6 |
| Llwybr Gyrfa | Ymchwil |

| | |
|---|---|
| Swydd yn atebol i | |
| Yn gyfrifol am y swyddi canlynol | |

**Prif swyddogaeth** (brawddeg neu ddwy)

Cynnal ymchwil o fewn archeoleg, gan ganolbwyntio ar ddeiet milwrol Rhufeinig, a chynhyrchu a chyflenwi bwyd ar ffiniau Ewrop. Mae'r ymchwil yn rhan o'r Grant Atgyfnerthu gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (ERC) 'Bwydo'r Fyddin Rufeinig, Creu'r Ymerodraeth (Feeding the Roman Army, Making the Empire), a bydd deiliad y rôl yn cyfrannu at waith ymchwil sy'n arwain at gyhoeddiadau o ansawdd uchel, a chyflawni amcanion y prosiect yn ôl y gofyn gan arweinydd y prosiect. Bydd y swydd yn cynnwys integreiddio tystiolaeth archeolegol a hanesyddol Rufeinig â setiau data gwyddonol y prosiect (e.e. isotopau, gweddillion organig). Dilyn rhagoriaeth mewn ymchwil ac ysbrydoli eraill i wneud yr un fath.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau** (rhwng chwech a 12 pwynt bwled, gan gynnwys dyletswyddau clinigol lle bo'n briodol)

Ymchwil

- Cynnal ymchwil o fewn archeoleg, gan ganolbwyntio ar ddeiet milwrol Rhufeinig, a chynhyrchu a chyflenwi bwyd ar ffiniau Ewrop.
- Casglu, dadansoddi a dehongli llawer iawn o ddata archeolegol, hanesyddol a sŵo-archeolegol amrywiol o ffynonellau niferus.
- Integreiddio, dadansoddi a chyflwyno tystiolaeth eang ynghyd â setiau data gwyddonol y prosiect (e.e. isotopau, gweddillion organig, data sŵo-archeolegol ac o weddillion planhigion) er mwyn cyflawni amcanion y prosiect.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i arferion samplu dinistriol a chysylltu â sefydliadau partner prosiect gan gynnwys amgueddfeydd a phrifysgolion ledled Ewrop i drefnu ymweliadau samplu.
- Cyfrannu at berfformiad ymchwil cyffredinol yr Ysgol a'r Brifysgol drwy gynhyrchu allbynnau mesuradwy, gan gynnwys cyhoeddi mewn cyfnodolion a chynadleddau academaidd cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cyflwyno mewn cynadleddau/ seminarau ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, hyrwyddo'r prosiect a'i ganfyddiadau drwy gyfryngau digidol (e.e. gwefan y prosiect), a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil yr Ysgol.
- Cyflawni tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil, gan gynnwys cynllunio a threfnu'r prosiect a rhoi'r gweithdrefnau sydd eu hangen ar waith i sicrhau bod adroddiadau manwl gywir yn cael eu cyflwyno'n brydlon
- Datblygu a chreu rhwydweithiau yn y Brifysgol a'r tu hwnt iddi er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau, ystyried gofynion ymchwil yn y dyfodol a rhannu syniadau ymchwil er budd prosiectau ymchwil

Arall

- Cydweithio'n effeithiol â chyrff diwydiannol, masnachol a chyhoeddus, sefydliadau proffesiynol, sefydliadau academaidd eraill, ac ati. Bydd angen gwneud hyn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i godi proffil yr Ysgol i feithrin partneriaethau strategol gwerthfawr, a chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar draws amrywiaeth o weithgareddau. Bydd disgwyl i'r gweithgareddau hyn gyfrannu at waith yr Ysgol a gwella ei phroffil rhanbarthol a chenedlaethol.
- Datblygu'n bersonol ac yn broffesiynol mewn modd sy'n briodol ac a fydd yn gwella perfformiad
- Cymryd rhan yng ngweinyddiaeth yr Ysgol a gweithgareddau i hyrwyddo'r Ysgol a'i gwaith i'r Brifysgol ehangach a'r byd y tu allan
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill nad ydynt wedi'u nodi uchod ond sy'n gyson â'r swydd.

## Manyleb yr Unigolyn

| Meini Prawf Hanfodol (uchafswm o 10) |
|---|
| <u>Cymwysterau ac Addysg</u><br><br>1. Gradd ôl-raddedig ar lefel PhD (neu bron â'i chwblhau/cyflwyno) ym maes archaeoleg Rufeinig neu brofiad proffesiynol cyfatebol.<br><br><u>Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad</u><br><br>2. Arbenigedd sefydledig a phortffolio profedig o ymchwil o fewn archeoleg Rufeinig, yn ddelfrydol gyda ffocws ar safleoedd milwrol.<br>3. Profiad o weithio gyda data archeolegol eilaidd eang<br>4. Y gallu diamheuol i gyhoeddi ymchwil o ansawdd uchel mewn cyfnodolion cenedlaethol/rhyngwladol a/neu fonograffau a chyfrolau wedi'u golygu.<br>5. Gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â chyllid ymchwil cystadleuol er mwyn gallu paratoi ceisiadau i gyrff cyllido.<br><br><u>Cyfathrebu a Gweithio Mewn Tîm</u><br><br>6. Gallu diamheuol i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>7. Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac i oruchwylio gwaith eraill<br><br><u>Arall</u><br><br>8. Gallu diamheuol i weithio heb oruchwyliaeth agos |
| Meini Prawf Dymunol (os yn briodol) |
| 1. Profiad o ddylunio cronfeydd data a gweithio gyda setiau data mawr ac amrywiol.<br><br>2. Tystiolaeth o allu cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol, eu datblygu a'u defnyddio i wella gweithgareddau ymchwil yr Ysgol. |
| Gwybodaeth ychwanegol |

| **Rheoli'r Ddogfen:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y fersiwn** | **Dyddiad addasu** | **Rhesymau dros addasu** | **Dyddiad adolygu** | **Enw ceidwad/crëwr y ddogfen** |
| 2 | Ionawr 2018 | I adlewyrchu newidiadau a gofynion y Brifysgol | | Rheolwr Dyfarniadau Adnoddau Dynol |
| Ymwadiad: Ystyrir bod copïau caled o'r ddogfen hon yn rhai nad ydynt wedi'u rheoli. Ewch i'r wefan AD i weld y fersiwn ddiweddaraf | | | | |